Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 10. Rhif 8.] AWST, 1910. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Cynadledd Genadol y Byd yn Edinburgh.
Er Cof am Haturen. Brynfardd.
Dyn a'i Waith. Lewis Williams, Rhydygwin.
Ymson y Myfyriwr.
Ein Cyfarfodydd Blynyddol. R. C. J.
Yr Efengyl Undodaidd yn Nghyfarfodydd Blynyddol Brondeifi.
Pethau Newydd a Hen.
Prigdas.
Marwgofion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

—TALIADAU.—

D.J.G., Ferndale; D.T., Prengwyn; D.J., Rhydfene; Mrs. W., Cwmtegryd; Mrs. J., Llansamlet; Mrs. E., Tregaron; Mrs. D.J.T., Cribyn; D.D., Felinfach; Mrs. J., Cribyn; J.P., St. Clears; D.D., Gwardafolog; Dr. J., Llanybyther; Miss J., Tregaron; J.J., Aberaman; J.T., Evelench; J.D., Llanwnen; Mrs. R., Ysguborfawr; J.R., Pontbrenllwyd; Mrs. J., Pentwyn; Parch. J.P.D., Pontypridd.

PRESBYTERIAN FUND.

The Managers give notice that they are prepared to offer the following Scholarships to Students for the Ministry, tenable from October, 1910—

I. THREE GRADUATE SCHOLARSHIPS, tenable at Carmarthen College, of the value of £40 a year for three years.

II. ONE UNDERGRADUATE SCHOLARSHIP, of the value of £50 a year, tenable for two or three years (at the option of the Board), at any recognised University College in the United Kingdom.

For Particulars and Forms of Application apply to the Secretary of the Board, G. HAROLD CLENELL, Esq., 6, Great James Street, Bedford Row, London, W.C.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1910. [CYF. X. RHIF 8.

AR EDYN FFYDD.

AWRLAIS Y GYDWYBOD.

YR wyf yn dweyd wrth bob dyn y dylai fod ganddo gydwybod mor fyw a theimladwy mewn canlyniad i ddal cymundeb dyddiol a Duw, ac yn cael ei throchi mor aml mewn myfyrdod duwiol-frydig, fel na byddo yn bosibl iddo gael ei gamarwain gan unrhyw esiampl, na'i dwyllo gan unrhyw dwyll ymresymiadau. Y mae'r dyn fo'n meddu oriadur gywir yn ymddiried ynddi. Ar ol iddo ei phrofi drachefn a thrachefn, a chael ei bod wedi dweyd y gwir wrtho trwy'r misoedd a'r blynyddoedd, y mae yn rhoddi llwyr ymddiried ynddi. Gall ofyn yr amser gan awrlais y dref, ond os gwahaniaetha oddiwrth ei oriadur ffyddlon y mae yn dweyd yn ddibetrus wrth gloc y dre', "Yr wyt yn dweyd anwiredd." Gall ofyn yr amser i'w gyfaill y cyferfydd ag ef ar yr heol, a derbynia ei hysbysiad hyd nes yr edrycha ar ei oriawr ei hun, ac os y câ eu bod yn gwahaniaethu, dywed, "Fy oriawr i sy'n iawn, oblegid nid ydyw byth yn fy nhwyllo." Dylai pob un ddal sylw ar yr amser nefol, ac ar ol rhoddi ei galon ei hun a'i gydwybod ei hun yn iawn wrth guriadau calon Duw, dylai ymgynghori a hwy, a'u credu hwy yn unig. Dylai gydmaru ei hun bob dydd wrth y safon hon, a gwrthod derbyn pob tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Bydd i'r hwn, gyda gwyneb agored, a edrycho i wyneb agored Duw, fod yn blentyn dydd, ac yn etifedd gogoniant.

CYNADLEDD GENADOL Y BYD YN EDINBURGH.

PWNC dyddorol yw pwnc y Genadaeth, dyddorol yn ei amcan, a dyddorol yn y gwahanol ddulliau yr ydys wedi gymeryd i gyrhaedd yr amcan. Crefydd, yn ddiameu, sydd wrth wraidd yr amryw ddulliau drwy'r oesau, hyd y nod pan na feddylid am ddim uwch na lledaenu opiniynau sect. Nid peth diweddar yw'r yspryd cenadol; yr oedd gan ddisgyblion y Bwda eu cenadaeth am oesau na wyddis pa nifer. Crefydd yw'r cymhellydd mawr wrth wraidd yr oll, wrth wraidd symudiadau'r Bwdydd yn ogystal ag eiddo'r dau cant sectau Cristnogol enwir yn Almanac Whitaker; ond rhyfedd y gwahaniaeth yn yr yspryd ac yn y modd yr ymgymerir a'r gwaith. Hoffwn gredu fod y byd yn myned rhagddo, fod pethau yn newid er gwell, er gwaethaf rhwystrau afrifed. Pan gyhoeddodd Galileo ei ddarganfyddiad, ac y dywedodd, "Y ddaear sy'n myned oddiamgylch i'r haul, ac nid yr haul oddiamgylch i'r ddaear," fe gafodd ei erlid yn dost. Yr oedd ei dystiolaeth yn groes i'r syniad cyffredin, yn groes i ymddangosiad amlwg pethau, a mwy na'r cwbl yn groes i'r awdurdodau Pabyddol, ac yn groes i addysg pendant y Beibl; a bu raid i Galileo dynu ei eiriau yn ol. Dewisodd wneud hyny yn hytrach na gwynebu marwolaeth sicr trwy dân y ffagodau; ond eto, cofier, argyhoeddiad dwfn ei galon, a llafar *distaw* ei dafod oedd—y ddaear sy'n symud, serch hyny! Ydy, mae'r byd yn mynd rhagddo.

HANER CAN' MLYNEDD YN OL

yr oedd y pregethu yn beth gwahanol iawn i'r hyn yw heddyw. Baich y pregethu gynt oedd—tân uffern yn gyntaf, wrth gwrs, y namyn Un Deugain Erthyglau Ffydd, y Pum' Pwnc—Etholedigaeth, Gwrthodedigaeth, &c., &c. Os nad oedd dyn o nifer yr etholedigion, nid oedd gobaith am dano. Os etholedig, etholedig nad beth wnelai'r dyn. Yr oedd y mater wedi ei benderfynu yn y Cyngor Bore. "Etholedig cyn fy ngeni, etholedig wedi meddwi," &c. Adroddir hanesyn am Dr. Evans, hen weinidog Calfinaidd, parchus yn Mristo gynt, ei fod mewn dadl mynych ag un o'i wrandawyr, yr hwn a honai ei fod o nifer yr etholedigion, a'r hwn y gwyddai'r doctor ei fod mewn rhagor nag un ffordd yn byw bywyd amhur ac aflan. Un dydd, cwrddodd y doctor ag ef yn feddw mawr, a chan feddwl ei argyhoeddi a'i ddiwygio, gofynodd iddo,—a dybiai fod ei gyflwr presenol yn nodweddiadol o blentyn i Dduw? Ar ol ymunioni, a'i gefn ar y wal, gofynodd y dyn i'r doctor, Beth oedd yn feddwl? Beth wyf yn feddwl? Yr wyf yn meddwl eich bod chwi yn feddw—yn feddw dall! Dr. Evans, ebe'r adyn digywilydd, mi wyddwn er ys llawer dydd, nad oeddych chwi ddim yn deall yr Efengyl! Yr ydych yn credu y dichon i ychydig ddiod olchi ymaith waed Crist oddiar enaid y credadyn! Credai miloedd gynt yn debyg i'r meddwyn hwn,

a mwy na thebyg mai'r pregethu ddarfu arwain i'r gred. Ar hyd llinellau tebyg oedd llawer o'r pregethu hyd yn gymharol ddiweddar. Nid yn anhebyg yw'r

HEN SYNIAD

glywir yn yr emyn—

> "Ni fuasai genyf obaith am ddim ond fflamiau syth
> Y tân nad yw yn diffodd a'r t'wyllwch dudew byth ;
> Oni buasai i'r Hwn a hoeliwyd ar fynydd Calfari,
> O ryw anfeidrol gariad, i gofio am danaf fi."

Onid dyna oedd baich pregethu y diweddar enwog a duwiol C. H. Spurgeon, ac onid dyna faich pregethu aml i Gymro hefyd, hyd yn gymharol ddiweddar ! Clywsom am Gymro parchus tua'r un adeg yn taro'r un tant. Dychmygai weled y colledigion yn dorf aruthrol ar eu taith i'r trueni tragwyddol. Gwelai hwynt yn mynd, yn mynd ; syrthiai dau dros y dibyn bob eiliad, drwy'r dydd, bob wythnos, bob mis, bob blwyddyn, yn ddibaid. Fe'u gwelai yn mynd. Dic, doc, meddai, gan ysgwyd ei law fel dringlyn cloc, dyna ddau *yn* mynd, *wedi* mynd. Yr oedd ei ddesgrifiad yn un byw. Dic, doc, meddai drachefn, dyna ddau eraill. Ar hyny, dyna'r merched a'r gwragedd yn brawychu ac yn screchain, a rhai yn syrthio i lewyg. Ychydig yw

YR ETHOLEDIGION

—miloedd yn unig, tra mae'r colledigion yn filiynau. I geisio achub "yr ychydig" yr anfonid y cenadon i bregethu'r efengyl i'r Paganiaid. Dyna'r prif reswm, yr *argument* mawr. Y mae rhyw anghsondeb rhyfedd yn yr oll. Nid adwaenai'r Paganiaid y Gwaredwr ; yn wir, ni chlywsant erioed son am dano, ac eto nid oedd un gobaith am danynt. Nid oeddynt wedi syrthio i fewn i delerau trefn yr achub. Yr oeddynt yn dropio i'r tân aniffoddadwy—ddau bob eiliad. Gyda chenadwri o'r fath yr aethai'r cenadon allan. Dyna eu hunig efengyl—eu hunig "newyddion da." Nid oedd gobaith am achubiaeth i bagan ond yn ol y drefn a bregethid ganddynt hwy.

DARLLENIAD HYNOD

o grefydd Iesu Grist—y grefydd a ddarlunir yn y Testament Newydd fel "newydd da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl." Yr oedd mwy o ddynoliaeth, a dweyd y lleiaf, yn nghalon yr hen frenin paganaidd gynt, am yr hwn yr adroddi'r stori debyg i hyn. Cafodd ei ddychwelyd gan un o'r cenadon, a bu'r amgylchiad, yn naturiol, yn destun llawer o siarad. Nid yn fynych y ceir cyfleusdra ar frenin. Gwnaethpwyd parotoadau helaeth ar gyfer ei fedyddio, ac aeth tyrfa fawr gyda'r cenadwr i lawr at yr afon. Wedi gosod un droed yn y

dwfr, dyna'r brenin dychweledig yn sefyll yn ddisymwth, yn troi ei wyneb at y cenadwr, ac yn gofyn iddo, a gawsai efe gwrdd a'i rieni yn y nefoedd? Atebwyd ef yn nacaol. Nid oedd ei rieni wedi eu dwyn i fewn i delerau'r drefn, ac felly nad oedd un gobaith am danynt. Ar hyny, dyna'r brenin yn tynu ei droed yn ol ac yn dweyd nad elai yntau yno chwaith. Yr oedd yn well ganddo fyned at ei rieni nad pa le bynag oeddynt!

Er mwyn dangos

RHAGORIAETH CRISTNOGAETH,

ystyriai'r cenadon ei bod yn rhan o'u dyledswydd i ddibrisio pob ffurf arall o grefydd, ac i ddywedyd nad oedd dim daioni yn y crefyddau ethnig, neu baganaidd; nad oeddynt ond twyll i gyd, nad oedd posibl iddynt achub neb. Crefydd yr Iuddew a'r Cristion, crefydd ddadguddiedig, crefydd oddi wrth Dduw oedd, a phob crefydd arall nid oedd ond dyfais dyn, yn llygru, yn arwain ar gyfelliorn, i dywyllwch anobaith ac i golledigaeth dragwyddol. Ond y mae

ARGOELION GWELL

yn y golwg. Y mae'r hen ffurf ar grefydd yn colli ei gafael ar y bobl, ac ni fyn y paganiaid ei derbyn. Rhaid i'r cenadon wrth syniad newydd, syniad mwy rhesymol, mwy naturiol. I ystyried hyn y daeth y miloedd yn nghyd yn Edinburgh. Ceir fod crefydd Sant Awstin a Sant John o Genefa yn graddol ymnewid dan ddylanwad y Zeitgeist—yspryd oes mwy mwyn a gwareiddiedig, a mwy o sylw yn cael ei dalu i ranau o'r Ysgrythyrau a gawsant eu hanwybyddu yn rhy hir—y cenedloedd, y rhai sydd yn dangos gweithred (neu ddylanwad) y ddeddf (hono sydd) yn ysgrifenedig yn eu calonau, Rhuf. 2: 15. Duw . . a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar wyneb y ddaear . . fel y ceisient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu am dano Ef a'i gael, Actau 17: 24–27. Sut erioed y gallwyd anghofio fod holl drigolion y ddaear, pob llwyth, pob iaith, pob cenedl, yn blant Duw, ac yn wrthrychau ei ofal, ei gariad, a'i drugaredd; nad yw Efe nepell oddiwrth bob un o honynt? Sut erioed y gallodd undyn ddychmygu fod y Tad gore, heb yr hwn nid yw aderyn y tô yn syrthio i'r ddaear; yr hwn nid yw yn danfon yr un trychfilyn i'r awyr, na'r un polyp* i'r dwfr heb ddarpar iddo ei luniaeth priodol; sut y dychymygodd undyn erioed fod Hwn wedi gadael y mwyafrif mawr o'i blant dynol, a grewyd ganddo ar ei lun a'i ddelw ei hunan, a ddoniwyd ganddo a chydwybod, a pharch, a gobaith, heb ddarpar iddynt y feithriniaeth angenrheidiol cyfatebol i'w hangenion.

Cynaliwyd y cyfarfod mawr y soniwn am dano yn Mehefin diweddaf (1910), a chyfarfod rhyfedd iawn ydoedd. Parhaodd ddeg diwrnod, a dywedir fod y presenolion yn rhifo rhyw bymtheg neu ugain mil, a thua dwy fil o'r rhai hyn yn gynrychiolwyr—dau Archesgob

* Pryfyn dwfr amldroediog.

Prydain Fawr, llu o Esgobion, a llu mwy fyth i gynrychioli prif enwadau ein gwlad; Anglicaniaid ac Anghydffurfwyr, cynrychiolwyr cenadaethau'r byd, o bob lliw a llun: rhai yn eu gwisgoedd amryliw o India, o China, Japan, &c., yn llefaru tafodiaethau gwahanol, ond oll yn medru siarad Saesneg yn rhigl. Yr un pwnc mawr a'u dygodd at eu gilydd oedd

PWNC Y GENADAETH;

i fwrw eu penau yn nghyd i ystyried y sefyllfa a'r arolwg, *to compare notes*, fel y dywedir, mewn ymgom cyfeillgar. Yr oedd pethau rywfodd wedi myned allan o drefn. Nid oedd y cynauaf yn gyfatebol i'r dysgwyliadau.

> "New times demand new measures and new men;
> The world advances, and in time outgrows
> The laws that in our fathers' day were best;
> And doubtless after us, some purer scheme
> Will be shaped out by wiser men than we,
> Made wiser by the steady growth of Truth,
> We cannot bring Utopia by force."—*Lowell.*

Ie'n wir, da cael hynyna o addefiad, eisieu'r "*new measures and new men.*" Wedi i'r cen syrthio oddiar y llygaid bydd gobaith i'r gwirionedd ddyfod i'w eiddo ei hun. *Policy* 'r Sais yn y gorphenol oedd ceisio gosod y rhaid ar bawb i fod yr un batrwm ag ef ei hun. Ei gynlluniau ef, ei wisg ef, ei iaith ef, ei bob peth ef yn unig wna'r tro. Felly y darfu iddo drin y Cymry drwy'r blynyddoedd, ac felly hefyd y triniodd gynfrodorion y Trefedigaethau. Er engraifft, gormod gwaith i'r cenadwr yw treulio dwy flynedd i feistroli iaith y brodorion; hoffusach a hawddach ganddo yw ceisio gan y brodorion ddysgu ei iaith ef. Felly, gyda'i wybodaeth amherffaith treuliai ei ddeg-ar-hugain neu ddeugain mlynedd i gyflawni ei ddyledswyddau mewn modd amherffaith. Gellir casglu ei fod yn darllen yr adnod genadol yn debyg i hyn—Ewch at yr holl genedloedd a dysgwch Saesneg iddynt, fel y gallont ddarllen y Beibl Saesneg, a throi pob llenyddiaeth arall ar y naill du, yr hyn oedd, meddai Mrs. Creighton, yn berffaith nodweddiadol o'r *English stupidity*! Dysgodd y

ZWLW GYNT

wers i'r Esgob Colenso, gwers ddymchwelodd ei gredo Anglicanaidd o'r gwaelod i'r *top*. Yn gyffelyb, yr oedd gan y cenadon brodorol hyn rai gwersi iachusol i'w cyflwyno i sylw y gwyddfodolion yn Edinburgh, Gwrthdystient, un ar ol y llall, yn erbyn yr arferiad o ddibrisio a dirmygu eu crefydd hwy, a gwnaent hyny gyda chymeradwyaeth cyffredinol y gwrandawyr. Nid oes amheuaeth nad oes llawer o'r methiant yn y maes cenadol i'w briodoli i'r arferiad annoeth

hwn. Ei grefydd yw ei beth anwylaf gan bob dyn—nid ofergoeliaeth disail a disylwedd yw crefydd unrhyw genedl. Tebyg ddigon nad oes y fath beth a chrefydd berffaith yn bodoli, megys nad oes y fath beth a dyn perffaith ; ond y mae yn nghrefydd pob cenedl ryw gyfran o ddaioni, yn rhinwedd yr hwn y mae wedi byw a llwyddo i gyfranu help a chysur. Rhy anhawdd genym gredu fod Duw wedi gadael un genedl erioed heb gyfranu o'i oleuni iddynt yn ol mesur eu gallu i dderbyn.

Peth arall awgrymwyd oedd, fod gormod o'r gyffes a'r gredo wedi bod yn y genadaeth, gormod o wasgu ar y gwahaniaethau bychain sydd yn rhanu sect oddi wrth sect, gwahaniaethau y byddai cystal eu hanwybyddu. Nid ydynt wedi gwneud dim erioed ond "tywyllu cyngor" gyda ni gartref, ac yn y maes cenadol ni allent wneud dim ond arwain y meddwl i ddyryswch. Byddai'n fendith anrhaethol i'r byd pe gellid cael

UNDEB A CHYDWEITHREDIAD

cyffredinol, pe ceid gan Babydd a Phrotestant, Eglwyswr ac Anghydffurfiwr i dwrio i lawr islaw y gwahaniaethau sy'n rhanu, nes dyfod o hyd i'r sylweddion tragwyddol y cytuna pawb yn eu cylch. Os am les cyffredinol y brodorion, ysgafnhaer y llong drwy daflu peth o'r balast allan ; gosoder mwy o bwys ar y bywyd nag ar y gredo, ar y gwirionedd nag ar athrawiaeth, a gofaler mwy am feithrin yr yspryd cenadol nag yspryd sect neu blaid. Nid dogma'r credoau sydd i achub y byd, ond cariad yn rhedeg i fywyd a buchedd lân. Swm y cwbl o grefydd yr Hen Destament yw ofna Dduw a chadw ei orchymynion ; a chrynodeb goreu crefydd y Testament Newydd yw "Duw yn dad a dyn yn frawd," "caru Duw a charu dyn." Peth arall a deimlid oedd, mai

CAMSYNIAD MAWR

yw'r trafferthu mwy na mwy wneir i brofi rhagoriaeth Cristnogaeth ar y crefyddau ethnig. Hyd y nod a chaniatau y rhagoriaeth, gwell o lawer na gosod pwys ar hyny fydd ceisio ei gosod ger bron yn ei symlrwydd cyntefig, a'i gadael i gymeryd ei lle gyda'r lleill, ac yn y fel yna i brofi ei rhagoriaeth ei hunan.

Mae ein llith wedi myned yn faith, a'n gofod yn cyfyngu arnom. Yr oedd y gynadledd yn bwysig, a disgwylir

CANLYNIADAU PWYSIG

ar ei hol—pwysicach nag eiddo Cyfarfod Mawr Crefyddau'r Byd yn Chicago, a phwysicach na'r Cyfarfod Heddwch yn yr Hâg. Ni wyddis beth am hyny, ond etyb bwrpas da os llwydda i ddifodi'r yspryd sectol, a sicrhau mwy o gydweithrediad, gan gadw mewn golwg yr hyn a ddylai fod yn unig amcan pob cenadaeth Gristnogol

—lles y bobl. Tuag at hyny, fe ddylai fod cysondeb rhwng yr amcan mewn golwg, a'r moddion ddefnyddir tuag at gyrhaedd yr amcan. Os neges y cenadon fydd dysgu'r efengyl, dylent ar yr un pryd geisio byw yr efengyl; dysgu heddwch, a byw yn heddychlawn. Anghysondeb o'r mwyaf yw anfon cenadon ar neges hedd, ac anfon arfau rhyfel yn yr un llong; dysgu dirwest, a gwthio'r diodydd meddwol ar y trueiniaid diniwed ac anwybodus.

ER COF AM HATHREN.

AETH Hathren y seren siriol,—ar frys,
O'r fro frau, ddaearol;
I yfory anfarwol,—
Hèr i ing fyn'd ar ei ol.

Nis gallem, mewn nos ei golli—yn hawdd
Yn wir, sylweddoli,
I wr o'i nerth, oedd gâr i ni,
Yn y tywod wedi tewi.

Hwn a ddaliodd yn feddyliwr;—i'w [oes
Yn wych gyfansoddwr;
A nodedig Undodwr,
I iawn dyn yn gadarn dŵr.

Yn ffyrdd Iôr, yn blaenori—i feusydd
Haf oesol daioni;
I'r làn at wir oleuni,
Hynod frawd a'i nod o fri.

Iawn gofyn, pwy a gyfyd,—yn ddoniol
Ddyddanydd yr yspryd,
Yn un bair i wynu'n byd
I goron, cyn y gweryd?

Yn ddiau, hwn fu'n ddiwyd,—a'i yrfa
I'w therfyn yn fywyd;
Nod ei iaith i waith, o hyd,
A gerwyn i seguryd.

Yr athraw tyner, Hathren,—a wywodd
Yn ieuanc ei awen;
Ni wêl nos i haul y nèn,
Yn ddedwydd dan hedd aden.

Hwn gurodd am agoriad—i olud
Byw heulwen ei Geidwad;
I'w ogoniant yn genad;—hyd farw,
Yn fyw i'w ddelw,—nef oedd ei alwad.

Er dolef mawr i'w deulu,—i ganoedd
Wnai'n gynes ei garu,
Yn ei fedd ca'i anrhydeddu,
A enw gwyn a bair yn gu.

Y gwr mâd, er ymadaw,—a erys
Yn arwr gwerth coffaw,
Ei gwrdd mewn ffydd, ddydd a ddaw,
Ar aelwyd y bêr alaw.

Trebanos. BRYNFARDD.

DYN A'I WAITH:

Anerchiad y Llywydd, y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, draddodwyd yn Nhyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn Mrondeifi, Llanbedr, dydd Mercher, Mehefin, 22, 1910.

"Never be idle, but fill up all the spaces of thy time with a severe and useful employment; for lust easily creeps in at these emptinesses where the soul is unemployed, and the body is at ease; for no easy, idle person was ever chaste if he could be tempted; but of all employments, bodily labour is the most useful, and of the greatest benefit for driving away the devil."—*Jeremy Taylor.*

"Man perfects himself by working. Foul jungles are cleared away, fair seedfields rise instead, and stately cities; and withal the man himself ceases to be a jungle and foul unwholesome desert thereby."

"All true work is religion:—all true work is sacred. True work is worship.—*Carlyle.*

Yr hyn oedd yn llywodraethu fy meddwl wrth ddewis testyn fy anerchiad oedd, beth allaswn gymeryd i draethu arno a fyddai yn appelio at bawb. Felly daeth y testyn

"DYN A'I WAITH"

i fy meddwl, a methais ei gael allan o hono. Mae pawb sydd yn gwrandaw arnaf heddyw yn gweithio. Mae gwaith yn anghenrhaid ar y mwyafrif o ddynion. Drwy chwys eu gwyneb y maent yn enill eu bara. Ond nid ar fara yn unig y bydd dyn fyw. Mae yna rywbeth mewn dyn nad yw bara yn gallu ei gynal. Perthyn i ddyn natur foesol ac ysprydol. Mae yn bwysig felly i ddyn feddu syniad iawn am ei waith, fel ag i'w gyflawni yn y fath fodd ag iddo beidio bod yn rhwystr i dyfiant ei natur foesol ac ysprydol, eithr yn gynorthwy i'w thyfiant. Mae yn amlwg fod syniad llawer am waith yn fydol ac anghywir iawn, ac fod eu gwaith mewn canlyniad yn cael dylanwad niweidiol ar eu nhatur foesol ac ysprydol. Nid ydynt yn ystyried fod gwaith yn foddion gras yn ogystal a moddion i enill bywoliaeth.

Camsyniol iawn oedd barn pobl ar y cychwyn am waith. Mae yna draddodiad Iddewig sydd yn dysgu fod gwaith wedi cael ei ddwyn fel cosp am drosedd yr hil ddynol yn Adda yn ngardd Eden. "Melldigedig fydd y ddaear o'th achos di; trwy lafur y bwytei o honi holl ddyddiau dy einioes." Yn y fan hon y daeth gwaith i fewn, trwy anufuddddod Adda yn bwyta o'r pren gwaharddedig. Nid oedd gwaith yn y cynllun dwyfol. Yr oedd pob peth yn ngardd Eden yn tyfu o honynt eu hunain. Canlyniad pechod yw gwaith; ac felly ystyrid gwaith yn felldith. Hawdd iawn oedd i'r syniad hwn gael ei eni pan yr oedd pobl mewn sefyllfa mor dywyll ac aniwylliedig. Yr hyn sydd yn syn yw ei fod wedi bod yn cael ei gredu a'i bregethu mor ddiweddar. Ond er ei fod yn syniad Beiblaidd, y mae hwn fel llawer o syniadau eraill y gorphenol, yn cael ei wrthod heddyw. Clywais y Parch. D. Adams, gweinidog gyda'r Anibynwyr yn Lerpwl, yn dweyd ar agoriad capel Neuaddlwyd, nad oeddynt hwy ddim yn credu mwyach mai cosp am bechod oedd gwaith. Fe gydnabyddir yn gyffredin heddyw

fod gwaith yn un o fendithion goreu y byd, ac yn un o'r cyfryngau goreu i ddatblygu y ddynoliaeth.

Gwelir daioni gwaith pan ystyriwn yr hyn sydd yn cael ei wneyd drwyddo. Heb waith ni fyddai masnach yn cael ei wneyd; ac heb fasnach ni fyddai yna gyfoeth yn y byd. Drwy fasnach y gwneir cyfoeth. Beth fyddai sefyllfa ein byd ni heddyw pe na bae cyfoeth yndd o? Mae cyfoeth wedi chwareu rhan bwysig yn nyrchafiad y ddynoliaeth. Ni ellir meddwl am ddim yn ein byd ag sydd wedi bod yn foddion i oleuo, i foesoli ac i ddyrchafu y ddynoliaeth nad oedd yn rhaid cael cyfoeth i'w gynal. Yr ysgol a'r coleg a'r eglwys ydyw y cyfryngau sydd wedi bod yn dyrchafu y ddynoliaeth. Mae miloedd o bunau yn cael eu treulio yn flynyddol i gynal y rhai hyn yn ein gwlad. Ni ellid eu cynal heb gyfoeth. Ac os mai y rhai hyn sydd wedi bod yn goleuo ac yn dyrchafu y ddynoliaeth, beth fyddai sefyllfa ein byd ni heddyw heb gyfoeth? Mae addysg a chrefydd wedi gwneud cyfnewidiad mawr o fewn cof rhai sydd yn byw yn awr. Maent wedi dyrchafu safon bywyd mewn ystyr feddyliol, amgylchiadol a moesol. Byddai ein byd yn dioddef yn enbyd mewn cyfeiriadau eraill hefyd oni bae am gyfoeth. Meddyliwch am y sefydliadau dyngarol sydd yn ein byd—clafdai, tlottai, ysgolion i fyddariaid a mudion, ysgolion i blant amddifaid, a llawer eraill o sefydliadau cyffelyb. Dyddorol iawn ydyw darllen hanes gweithrediadau *Dr. Barnardo's Homes*. Plant amddifaid a thlawd o *slums* y dref sydd yn cael eu cymeryd i fewn yno. Drwy gael addysg a chrefft yn yr Homes yma mae llawer ohonynt yn sefyll yn uchel mewn bywyd heddyw. Gymaint y mae sefydliadau fel hyn yn wneud i leddfu tlodi, ac i ddyrchafu pobl mewn ystyr fydol a moesol!

Heb waith ni fyddai yna ddim dyfais na chelf. Onid yw gallu meddyliol dyn wedi cael ei ddatblygu yn fawr wrth ei arfer mewn dyfais? Mae dyfais yn mawrhau dyn. Pan yn son am fawredd dyn, oni wnawn gyfeirio at ei allu dyfeisgar fel un o'r arwyddion o'i fawredd? Pe na bae dyn wedi arfer ei hunan mewn dyfais byddai yn llawer llai mawreddog nag ydyw heddyw. Mae dyfais wedi datblygu a dyrchafu dyn. Heblaw hyny mae dyfais wedi cynyrchu llu o bethau sydd yn hyrwyddo llwyddiant y byd mewn gwahanol gyfeiriadau. Cynyrch dyfais yw y gerbydres a'r llong. Faint mae y ddwy yma, a llu o bethau eraill ag y mae dyfais wedi eu cynyrchu, wedi wneud i lwyddo y byd? Yr y'm ni yn byw ar gynyrchion gwledydd eraill. Ond ni fyddai yn bosibl cael y cynyrchion yma heb y llong. Mae un wlad yn ein cyflenwi ag un peth, a gwlad arall yn ein cyflenwi â pheth arall. Nid yw hinsawdd ein gwlad ni yn gymhwys i gynyrchu rhai pethau. Yr y'm ni yn cael o wledydd eraill yr hyn nad ydynt yn cael eu cynyrchu yn ein gwlad ni. Ac heb gynyrchion gwledydd eraill byddai ein gwlad ni lawer tlotach mewn defnyddiau ymborth, a llawer o ddefnyddiau eraill, nag ydyw. Eto mae y gyfathrach mae y llong yn sefydlu rhwng gwledydd a'u gilydd yn galluogi un wlad i ganfod rhagoriaeth gwlad arall arni. Ac y mae canfod rhagoriaeth gwlad arall mewn unrhyw beth wedi cymhell gwledydd i geisio ei hefelychu. Mae y gyfathrach yma sydd rhwng gwledydd a'u gilydd wedi bod yn foddion llwyddiant a dyrchafiad gwledydd. Dyna'r dyn ieuanc yn myned oddi cartref i gyfarfod cystadleuol i gystadlu ar rywbeth. Mae ef yn cyfarfod a rhywun yno sydd yn gallu canu, neu yn gallu gwneud rhywbeth arall yn well nag ef. Mae dod i gysylltiad a hwnw yn lles mawr iddo—mae yn foddion i greu ymdrech ynddo i geisio rhagori arno ei hunan, a rhagori ar hwnw hefyd, os y bydd hyny yn bosibl. Mae daioni cyffelyb yn dod o'r gyfathrach sydd rhwng gwledydd a'u gilydd. Mae diwylliant a safle uchel un wlad mewn addysg neu gelfyddyd neu rywbeth arall yn gymhelliad i wlad arall i

geisio dod i fyny a hi. Dywedai cyfaill wrthyf, sydd yn cael ei gyflogi gan *Firm* fawr i fyned oddiamgylch i werthu ei nwyddau, fod y Ffrangeod yn alluog ac yn fedrus iawn mewn gwneud patrynau mewn defnyddiau sydd yn cael eu gwisgo gan fenywod, ac ei fod ef yn cael ei anfon i Ffrainc bob blwyddyn i gael *samples* o'r patrynau yma. Mae y gymdeithas sydd rhwng gwledydd a'u gilydd fel hyn yn gwneud daioni mawr. Mae un wlad yn derbyn addysg oddi wrth y llall, ac yn derbyn y cymhelliad i ddiwylliant a chynydd. Mae gwaith y tucefn i'r diwylliant a'r cynydd hwn, oblegyd drwy ddyfais a gwaith y mae'r llong sydd yn gwneud y gymdeithas rhwng gwledydd a'u gilydd yn bosibl, yn cael ei gwneud, ac yn cael ei llywio dros y cefnfor.

Heb waith ni fyddai yna un llyfr heddyw. Faint mae llyfrau yn wneud i oleuo ac i foesoli bywyd? Nid yw pawb yn cael eu geni yn Copernicus, oedd yn gallu deall dirgelion yr wybren uwchben. A beth pe na bae yr un llyfr? Ni fyddai adnabyddiaeth Copernicus o'r wybren wedi cael ei thaenu ar led y byd Mae yna wybodaeth mewn llyfrau nad oes ond ychydig wedi gallu darganfod y wybodaeth hono erioed. A beth pe bae y wybodaeth hono wedi cael ei chyfyngu i'r ychydig a'i darganfyddodd ac i'r ychydig o gydnabod y rhai hyny? Byddai ein byd yn llawer mwy tywyll ac anwybodus nag ydyw. Ychydig iawn mewn cymhariaeth sydd yn gallu cyfansoddi tônau. Ac heb waith ni fyddai un dôn ar glawr a chadw. A beth fyddai byd heb gân? Mae cerddoriaeth wedi bod yn llawforwyn wasanaethgar i grefydd. Mae cerddoriaeth yn gallu dwyn teimladau dyn i gyflwr i dderbyn gwirioneddau. Pan y mae drws y galon yn gloedig i bob peth gall swynion melus a thoddedig canu ei agor gyda'r rhwyddineb mwyaf. Cofus genyf ddarllen am y diweddar Henry Richard, A.S., yn ymweled â dynes ieuanc o Gymraes ar ei gwely angeu, mewn ysbyty yn Llundain. Yr oedd wedi bod ar gyfeiliorn am flynyddoedd, yn byw mewn pechod a gwarth ar ystrydoedd y ddinas; ond yr oedd yn awr yn nghanol clefyd marwol, ac nid oedd ganddi ond ychydig amser i fyw. Yn ei ysbryd tyner ac efengylaidd ceisiodd Henry Richard dynu ei sylw at wirioneddau cysurlawn yr Efengyl, ond i ddim pwrpas. Wedi ymdrechu felly a methu, torodd y boneddwr allan i ganu gyda llais mwyn emyn Gymraeg adnabyddus. Cyn iddo ei ganu drwyddo yr oedd y dagrau brwd yn treiglo i lawr dros ruddiau y cystuddiedig, a dywedodd mewn geiriau crynedig, "O! syr, dyna hen benill a glywais fy mam yn ei ganu ganwaith yn yr amser dedwydd gynt." Erchodd iddo i'w ganu drwyddo ragor nag unwaith. Bu hyn yn foddion i doddi caledrwydd ei chalon. Mae gan ganu allu rhyfeddol i enill calonau dynion. Mae canu wedi trechu cewri cyn hyn. Dywedir i Napoleon wylo yn hidl dan ddylanwad ei argraffiadau unwaith. Mae canu wedi bod yn gymhorth i ddwyn amcanion mawr i ben. Yr oedd Luther, y diwygiwr mawr, wedi sylweddoli hyn. Cyfansoddai ef alawon ar eiriau syml, a dosparthai hwy yn mhlith y bobl. Byddai y bobl yn ymhyfrydu yn eu canu, a thystiai gelynion Luther fod argraffiadau ei ganeuon wedi gwneud mwy o waith mewn hyrwyddo y Diwygiad nag un ran arall o'i wasanaeth. Meddyliwch gymaint yn dlotach ac yn îs yn mhob ystyr fyddai ein byd ni heb y pethau yma ydym wedi nodi.

Mae gwaith nid yn unig yn dwyn lles bydol, ond y mae hefyd yn dwyn lles moesol ac ysprydol. Mae cymeriad moesol ac ysprydol pobl yn uwch heddyw oblegyd gwaith. Mae bywyd wrth weithio yn ymburo. Mae bywyd diwaith yn fywyd afiach fel y llyn lonydd. Beth sydd yn peri fod cymaint o wahaniaeth rhwng dyfroedd cysglyd y llyn sydd yn y goedwig â dyfroedd grisialog a thryloew y gornant a'r afon? Wel, mae'r llyn yn aros yn llonydd a digyffro yn yr unman: mae yn hoff gartref i bob peth sydd yn afiach a budr. Ond

am ddyfroedd yr afon a'r gornant y maent wrthi yn gyson a di-ymattal. Mae'r gornant yn arllwys dros lechwedd y bryn gan sisial ei chân nes distewi yn mynwes yr afon. Mae'r afon yn llifeirio beunydd a beunos gan ddyfrhau y dolydd a phrydferthu y meusydd, a gwasanaethu yn ffyddlon a dirwgnach i breswylwyr y glanau a'r trefi; ac yna wedi ymdrechu ymdrech deg mae yn boddi ei hunan yn nyfroedd y cefnfor. Diwydrwydd yw *motto* yr afon o'i tharddle i'w hymarllwysiad i'r môr; ac wrth wasanaethu i eraill y mae yn gwasanaethu ei hunan hefyd, oblegyd y mae ei llifeiriad cyson yn foddion i buro ei mhynwes a gloewi ei gwyneb, fel y mae yn addas gartrefle i'r eog a'r brithyll sydd yn ymddifyru yn nwyfus yn ei dyfroedd tryloew. Felly y gellir dweyd am fywyd pobl. Os mai treulio eu bywyd maent mewn diogi a segurdod, mae eu bywydau yn debyg i lyn lonydd, yn dynfa i bob peth aflan a llygredig. Ond os byddant yn gyson a diorphwys gyda'u gwaith ni fydd yna ddim cyfle i bethau aflan gael dod i fewn. "*Nature abhors a vacuum*"—"Mae natur yn cashau gwagle." Os na fydd meddwl dyn ar ryw waith da, mae yna bethau drwg yn sicr o ddod i'w lenwi a'i lygru. Nid yw yn bosibl i ddyn gadw ei feddwl yn wag. Os na rydd ei feddwl i ryw waith da, mae yna bethau drwg yn sicr o ddod i'w lenwi. Mae yna hanes am ddyn wedi gofyn i frenin Dwyreiniol pa fodd yr oedd gallu osgoi temtasiwn? Dywedodd y brenin wrtho am gymeryd *jar* yn llawn o olew, a'i chario drwy ystrydoedd y ddinas heb golli un dyferyn. "Os colli un dyferyn," meddai y brenin, "caiff dy ben ei dori ymaith." Danfonodd y brenin ddau ddyn a chleddyfau ganddynt i gerdded o'r tu ol i'r dyn, a rhoddodd orchymyn iddynt am dori ei ben os y collai un dyferyn. Digwyddai fod ffair yn y dref y diwrnod hwnw, a'r ystrydoedd yn llawn o bobl. Er hyn i gyd, bu y dyn yn ddigon gofalus, a dychwelodd at y brenin heb golli un dyferyn o'r olew. Gofynodd y brenin iddo, "A welaist ti rywun tra'r oeddet yn rhodio ar hyd yr ystrydoedd?" "Naddo neb," atebai'r dyn. "Sut hyny?" meddai'r brenin, "a bod yr ystrydoedd mor llawn o bobl." "Wel," meddai'r dyn, "yr oedd fy meddwl i ar yr olew, ac nid oeddwn yn sylwi ar ddim arall." "Yna," meddai'r brenin, "gwyddost pa fodd i osgoi temtasiwn. Sefydla dy feddwl mor gadarn ar Dduw ac ar dy waith yn ngwinllan Duw ag y gwnaethost ei sefydlu ar yr olew, ac ni themtir di i bechu." Yn anialwch segurdod mae temtasiynau yn ymosod ar ddynion. Mae gwaith yn diogelu bywyd rhag meddyliau drwg a themtasiynau. Mae gwaith yn puro ac yn perffeithio bywyd hefyd, gan fod yna elfenau yn cael eu dwyn i arferiad yn mhob gwaith da. Mae'r crefftwr yn dwyn gonestrwydd i arferiad yn ei waith. Er mai cydymdeimlad a thosturi arweiniodd Florence Nightingale i weini i'r clwyfedigion yn y Crimea, eto dywedir i'w gwasanaeth yno fod yn foddion i feithrin ei chydymdeimlad a'i thosturi, ac iddi ddychwelyd oddi yno yn llawer cyfoethocach yn yr elfenau hyn na phan yr aeth yno. Mae ein anhunanoldeb, ein cydymdeimlad, a'n cariad, a'n cyfiawnder, yn nghyd ag elfenau eraill ag sydd yn ein gwneud ni yn ddynion, yn cael eu meithrin gan waith. Nid yw gwaith yn felldith ynte, ond y mae yn un o'r pethau mwyaf daionus yn y byd.

Mae yn wir y gall gwaith fod yn felldith. Mae yna ran fawr o'r hil ddynol heddyw yn isel iawn eu bywydau, a hyny am eu bod yn cael eu beichio a gwaith gormodol. Mae yna ddynion heddyw yn ormod o *slaves*. Mae yna ddynion heddyw ag y mae eu bywydau i gyd, ar wahan i'r amser maent yn cysgu ac yn bwyta bwyd yn cael eu treulio i weithio. Mae yna ran fawr o'r hil ddynol nad oes ganddynt ddim awr o hamdden i ddarllen a goleuo eu eu meddyliau ac ymgydnabyddu ag hanes ac a gweithrediadau y byd. Ni wyddant nemawr am yr hyn sydd yn myned yn mlaen yn y byd. Ni

wyddant ddim am y goleuni newydd sydd yn cael ei ddwyn ar bethau. Maent yn anhysbys o'r ymdrechion sydd yn cael eu gwneyd yn ngwahanol gylchoedd bywyd i berffeithio pethau, ac o'r gwelliantau sydd yn cael eu dwyn o'r ymdrechion hyn. Colled fawr i ddynion ydyw cael eu cau i fewn mewn tywyllwch felly, a pheidio cael golwg ar fywyd yn ei fan goreu. Wrth ddarllen ac ymgydnabyddu a'r goleuni newydd sydd yn cael ei ddwyn ar bethau, ac wrth sylwi ar y ffyddlondeb a'r llafur a'r hunanaberth ddangosir gan ddynion sydd yn ymroi i geisio gwella sefyllfa pethau, a gweled fel y mae egwyddorion Cristionogaeth yn cael eu dwyn i fewn ganddynt i wahanol gylchoedd bywyd, gan buro a dyrchafu y cylchoedd hyny, mae yna awydd yn cael ei ddeffroi mewn dyn am fod yn fwy na *slave*, ac am esgyn i'r safle uchel o fywyd y gwel fod llawer o'i gyd-ddynion ynddo. Mae gormodwaith sydd yn cau dyn allan o'r goleuni hwn yn felldith, am ei bod yn rhwystr ar ffordd diwylliant a chynydd dyn.

Mae yna fath arall o waith sydd yn felldith. Mae gwaith ambell fasnachwr yn felldith. Nid yw masnach yn felldith ; y masnachwr sydd yn gwneyd ei waith yn felldith. Mae e' wedi gadael ei hunan i fyn'd yn yslâf i'w fusnes fel nad yw yn talu sylw i ddim arall nac yn teimlo tuedd at ddim arall. Mae yna hanes am fasnachwr o'r enw Arséne, oedd yn byw yn Paris, wedi sylweddoli ar ddiwedd ei fywyd y camddefnydd oedd wedi wneyd o'i fywyd. Ychydig amser cyn ei farwolaeth rhoddodd orchymyn i'w berthynasau am osod ar ei garreg fedd y geiriau hyn : "Wedi fy ngeni i fod yn ddyn ; wedi marw yn fasnachwr." Yr oedd wedi rhoddi ei holl fryd ar fasnach, ac wedi diystyru y pethau hyny ag sydd yn gwneyd dyn yn ddyn yn ngwir ystyr y gair. Yr oedd y dyn wedi cael ei newynu ynddo. Nid oedd y dyn wedi cael cyfle i dyfu ynddo. Y masnachwr oedd wedi cael ei sylw a'i ymdrech. Ond y mae dynion ar ddiwedd eu hoes, pan y maent yn ymyl croesi i'r byd arall, yn dod i deimlo mai nid eu llwyddiant fel masnachwyr sydd yn rhoi teilyngdod iddynt yn ngolwg y nef. Maent yn dod i deimlo fod y masnachwr yn darfod yn y bedd, ac fod y bywyd sydd wedi cael ei fyw yn gyfangwbl i fasnach wedi cael ei fyw yn ofer. Mae pawb yn awyddus am lwyddo yn eu gwaith. Ond y mae perygl i ddynion wneyd eu llwyddiant yn eu gwaith yn unig amcan eu bywyd. Mae'r crefftwr a'r amaethwr yn ymfalchio ac yn llawenhau yn eu llwyddiant. Mae hyny yn hollol naturiol. Peth canmoladwy iawn yn mhob dyn ydyw ceisio llwyddo yn ei waith, a pheth annheilwng iawn mewn dynion ydyw peidio ymdrechu llwyddo. Mae'r amaethwr yn ymfalchio os y bydd yn llwyddo ac yn dod y blaenaf yn y gymydogaeth fel amaethwr. Ond y mae ambell amaethwr na ellir dweyd nemawr yn fwy am dano nag mai amaethwr ydyw. Gofynaf yn ddifrifol pwy garai farw yn amaethwr ? Mae'r amaethwr yn darfod yn y bedd. Beth sydd o'r dyn yn aros i wynebu y byd arall ? Nid oes dim o'i ogoniant fel amaethwr. Mae hwnw yn darfod yn angau. Yr hyn sydd yn aros o hono i wynebu'r byd tragwyddol ydyw y rhan arall hono sydd yn cael ei diystyru a'i newynu ganddo. "Wedi fy ngeni i fod yn ddyn ; wedi marw yn fasnachwr" Beth mae Iesu Grist yn alw y dynion hyn ? "O ynfyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt, ac eiddo pwy fydd y pethau a barotoaist ?" Ie, er fod y gair 'ynfyd' yn swnio yn isel, eto ynfydion ydyw'r dynion sydd yn marw yn fasnachwyr, yn amaethwyr ac yn grefftwyr. Maent wedi cael eu geni a phosibilrwydd dynion ynddynt, ac a phosibilrwydd i ymddyrchafu i'r cymeriad hwnw sydd yn gwneud dyn yn un a Duw, fel yr oedd Iesu Grist yn un a Duw, ac yn eu wneud yn etifedd Teyrnas Nefoedd. Onid yw hyn yn beth llawer uwch a rhagorach nag enill y cymeriad o fasnachwr ac amaethwr ? cymeriad sydd yn diflanu yn fuan iawn. Mae gwerth ysprydol

a thragwyddol mewn enill y cymeriad o ddyn, tra nad oes ond gwerth amserol a diflanol mewn enill y cymeriad o fasnachwr a ffermwr. Mae gwaith felly sydd yn gwneud masnachwr a ffermwr o ddyn yn felldith am ei fod yn rhwystro dyn i gyrhaedd y posibilrwydd uchel sydd ynddo, ac i etifeddu yr etifeddiaeth deg sydd wedi cael ei harfaethu iddo.

Mae yn rhaid i bawb wrth rhyw alwedigaeth, ac y mae yn ddyledswydd ar bawb i ymroddi yn egniol i'w galwedigaeth. Ond fe ddylai fod gan ddyn nid yn unig alwedigaeth ond hefyd fod ganddo rywbeth i'w alw oddiwrth ei alwedigaeth. Fe ddywedid am Mr. Gladstone, ei fod yn wastad yn cario rhyw lyfr yn ei logell, y byddai yn ei ddarllen pryd bynag y cawsai hamdden. Nid oedd y llyfr hwn yn dal perthynas union-gyrchol a gwleidyddiaeth; ond yr oedd yn lyfr ag oedd yn cynwys y teimlad brawdol, yr ysbryd caredig, a'r egwyddor gyfiawn ddylai lywodraethu yn holl weithrediadau dyn. Ac wrth ymneillduo oddiwrth waith y senedd at y llyfr hwn, ac yfed o'i addysg, yr oedd yn cael help i ddwyn teimlad brawdol ac ysbryd caredig ac egwyddor gyfiawn i waith y Senedd. Felly hefyd y dylai dyn ymneillduo oddiwrth ei waith i gymdeithas ei Dduw, i gael ei arwain ganddo i sylweddoli nad yw ei fywyd yn sefyll ar amlder pethau materol, ond ar wrteithiad a dadblygiad yr elfenau dwyfol a berthyn i'w natur ysprydol.

Mae yna rai dynion, ar ol iddynt gael eu gorfodi gan henaint a llesgedd i roddi eu galwedigaethau i fynu, nad oes dim dyddordeb iddynt mewn bywyd. Mae dyddordeb a chysur eu bywyd i gyd yn eu galwedigaethau. Mae yna chwedl am geffyl mewn *cab*, nad oedd neb wedi ei weled allan o'r *cab* er's amser maith. Gofynodd rhywun i'r *cabman* pa'm na fuasai yn tynu'r ceffyl allan o'r *cab* weithiau? Ei atebiad oedd ei fod yn ofni na fedrai'r ceffyl ddim sefyll ar ei draed heb gael cynorthwy *shafts* y *cab* i'w ddal i fyny. Mae yna ddynion hefyd ar ol eu tynu allan o'u gwaith na fedrant ddim sefyll i fyny. Eu gwaith sydd yn cynal eu cysur a'u dedwyddwch, a phan y mae eu gwaith yn cael ei gymeryd oddi arnynt, y maent yn syrthio i ddigalondid ac anghysur. A ydyw y rhai yna yn ddynion? Adeilada yr aderyn ei nyth, a chân ei gerdd, ac ni ddisgwyliwn ychwaneg oddiwrtho, am mai dyna fedr e' wneud, ac a amcanwyd iddo wneud. Ond fe amcanwyd i ddyn wneud mwy nag adeiladu ei nyth. Ac fe all dyn wneud mwy. Mae wedi cael ei freintio â natur uwch nag eiddo yr aderyn. Mae yn uwch na'r anifail sydd ond yn unig yn gofyn am gael ei borthi a'i letya. Mae gan ddyn enaid sydd yn ei gysylltu a thragwyddoldeb. A ydyw e' ynte yn adwaen bywyd dynol pan y mae yn ymroi yn gyfangwbl i oruchwylion bydol?

Golwg druenus sydd ar y dynion hyn yn eu hen ddyddiau. Er iddynt fod yn gyfoethog o bethau y byd hwn, eto golwg druenus sydd arnynt. Mae yn wir fod cyfoeth a llwyddiant tymhorol yn rhoddi llawer o ogoniant i ddyn ar y ddaear yma. Mae yr arwyddion o gyfoeth sydd o gwmpas i ddyn yn rhoddi safle uchel iddo mewn cymdeithas, ac yn enill parch iddo. Ond y mae'r anrhydedd a'r parch yma sydd yn cael eu rhoddi i ddyn ar gyfrif ei gyfoeth yn diflanu pan y mae dyn yn ymyl ei ddiwedd. Yr y'm ni yn edrych ar ddyn pan y mae yn ymyl ymadael a'r byd yma yn ei berthynas ag anfarwoldeb. Yr y'm ni yn anghofio ei berthynas ag anfarwoldeb pan y mae e'n ieuanc, ac yr y'm ni yn edrych arno y pryd hwnw yn ei berthynas a'r byd hwn. Ac y mae yn ymddangos i ni yn fawreddog. Ond pan yr y'm ni yn edrych arno yn ei berthynas ag anfarwoldeb, mae e'n ymddangos yn dlawd ac yn druenus i'r eithaf. Nid oes arwyddion aeddfedrwydd arno. Fe fuoch yn myned i'r berllan yn gynar cyn y byddai'r afalau wedi tyfu i'w cyflawn faint, ac fe fuoch yn cael afal wedi cael ei daflu gan rywbeth i'r llawr. Yr oedd rhyw deim-

lad o dosturi yn dod drosoch am fod yr afal wedi cael ei dori i lawr cyn aeddfedu. Nid oes dim o'r teimlad hwnw o dosturi yn dod drosoch pan y byddwch yn cael afalau yn yr Hydref ar y llawr. Mae yr olwg aeddfed sydd arnynt yn eich gwneud yn foddlon i'w gweled wedi tori eu cysylltiad â'r pren. Golwg druenus sydd ar ddyn anaeddfed. Mae yna brydferthwch yn yr afal aeddfed. Mae yna brydferthwch yn y dywysen aeddfed. Yr wyf wedi gweled mewn llawer amaethdy yn yr Hydref sypyn o dywysenau aeddfed yn hongian o dan y llofft. Mae'r amaethwr yn credu eu bod yn addurno'r tŷ—fod yna brydferthwch ynddynt. Ond ni welais i ddim sypyn o dywysenau glas ac anaeddfed yn hongian o dan lofft neb erioed. Ni fuasai dim prydferthwch mewn sypyn felly. Tywysenau aeddfed sydd yn brydferth. Bywyd aeddfed sydd yn brydferth hefyd. Beth sydd yn gwneud bywyd yn aeddfed ynte? Meddiant o gymeriad heb fod yn cael ei lychwino gan fydolrwydd na chan bechod o un math arall.

A dyma'r bywyd sydd yn rhoddi teimlad melus i ddyn ar ddiwedd ei oes. Y ffrwythau aeddfed sydd yn felus; a bywyd aeddfed sydd yn felus hefyd. Nid yw yn bosibl i ddyn anaeddfed ei fywyd gael melusder ar ddiwedd ei oes, oblegid y mae ymdeimlad o dragwyddoldeb yn cyfodi yn mhob mynwes cyn ymadael a'r byda yma. Mae'r bardd wedi awgrymu hyny yn brydferth iawn :—

> ''Rwyf yn dechreu teimlo eisoes
> Beraroglau'r gwledydd draw,
> Gyda'r awel ber yn hedeg
> Diau fod y wlad gerllaw.'

Beth yw hwna ond ymdeimlad o'r tragwyddol yn cyfodi mewn dyn? A phan y mae'r teimlad hwn yn cyfodi mewn dyn, nid yw yn bosibl i'r anaeddfed ei fywyd fod yn ddedwydd Na fydded i ni adael ein gwaith fod yn felldith i ni drwy ein rhwystro i berffeithio *y dyn* sydd ynom. Yr y'm ni wedi ein geni i fod *yn ddynion*, ac nid yn fasnachwyr ac yn amaethwyr ac yn grefftwyr. Gofalwn fod *y dyn* yn cael tyfu ac aeddfedu ynom, fel y byddwn yn marw *yn ddynion* ac yn etifeddion Teyrnas Nefoedd.

YMSON Y MYFYRIWR.

Dywed Luc i'r Iesu, pan ar ymweliad a Nazareth rywbryd yn ystod ei weinidogaeth, fyned i'r synagog a darllen y geiriau canlynol o lyfr y Proffwyd Esaiah: — "Ysbryd yr Arglwydd sydd arnaf fi, oherwydd iddo fy eneinio i; i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, i iachau y drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion, a chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb, i bregethu blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd." Po fwyaf ddarllenaf ac a feddyliaf am Iesu, ymddengys y geiriau hyn i mi fel yn taro

CYWEIRNOD EI EFENGYL

gyda chywirdeb rhyfeddol, a phe bae Iesu yn dychwelyd i'n gwlad ni heddyw, ac yn llefaru yr un geiriau, enillent iddo heb un amheuaeth yr enw Sosialydd. Wrth sylwi ar gym-

deithas ei ddydd ef yn ngwlad fechan Palestina, beth welai? Gwelai'r tlawd yn cael ei ddi-ystyru a'i sathru dan draed, ac yn plygu dan bwys y beichiau trymion. Gwelai fel y digalonid y werin bobl gan yr ymdrech galed y gorfodid hwy i gymeryd rhan ynddi yn ddyddiol. Gwelai'r mwyafrif—dynion crefyddol fel y rhai anghrefyddol—yn rhodio taith bywyd yn ysprydol ddall. Nid dyna fel yr oedd Duw wedi bwriadu i bethau fod. Ac ni raid i bethau fod felly. Yr oedd ffordd i ddod allan o bob un o'r cyflyrau hyn. Yr oedd eisiau codi'r tlawd o'i dlodi; yr oedd eisiau gwella'r galon ddrylliedig; yr oedd eisiau rhyddhau dynion o bob caethiwed; yr oedd eisiau cyfeirio golygon dynion at ddelfrydau amgenach a godidocach. Nid yn unig yr oedd eisiau gwneud hyn, ond yr oedd gwneud hyn yn bosibl. A dyma'r gorchwyl y cysegrodd Iesu ei fywyd i'w gyflawnu. Sut yr aeth efe yn nghyd a gwneud y gorchwyl? Cydymdeimlai a'r tlawd: wrthynt hwy y llefarai ei eiriau mwyaf tyner, tra yr arferai ei eiriau mwyaf celyd at eu gorthrymwyr. Dysgodd egwyddorion y rhai, ond iddynt gael eu cario i weithrediad, a symudent achosion calonau drylliedig. Dangosodd, trwy ei ddi-ystyrwch ef ei hun o lythyren y gyfraith, na raid i neb fod yn gaeth iddi. A thrwy ei fywyd ei hun gosododd o flaen dynion ddelfryd o fywyd i gyrchu ati nad oedd ei bath wedi ymddangos hyd hyny. Dyna

AMCAN PENAF BYWYD IESU:

dangos y ffordd, ac anog dynion, trwy gydymdeimlad ac esiampl, i ymgodi o'r cyflyrau hyn i'r cyflwr yr oedd Duw am i ddyn fod ynddo. Ai nid dyna sydd eisiau ei wneud o hyd? Y mae cymdeithas heddyw yn agos iawn yr un fath ag ydoedd cymdeithas yn amser Iesu; neu, y mae cymdeithas heddyw yn cael ei blino gan yn agos yr un fath ddoluriau ag a flinent gymdeithas dydd Iesu. Y mae tlodi o hyd yn gwneud bywyd i filiynau yn feichus. Briwir calonau miliynau gan y frwydr ddi-drugaredd i gadw uwchlaw i'r dòn; a newynant am gydymdeimlad. Ffyna caethiwed i arferion di-fudd ac i amcanion anheilwng yn gyffredin iawn. Delir ni oll yn nghrafangau'r caethiwed hwn i ryw raddau. Ai nid oes moddion effeithiol i liniaru os nad iachau'r clwyfau hyn a anharddant fywyd cymdeithas? Oes, y mae moddion. Ond a oes yn amrywiol sefydliadau a mudiadau crefyddol a dyngarol ein dydd ddigon o ysprydy Blaenor i beri i'r moddion gael ei gymhwyso? Pair yr olwg ar un ochr i'r darlun gryn dipyn o amheuaeth mewn perthynas i hyn. Ni ymhelaethaf ar yr ochr anymuuol i'r darlun yn awr, eithr troaf at

YR OCHR DDYMUNOL

o hono. Ai gobeithiol, ynte anobeithiol, y rhagolygon? A ydyw ysprydy Iesu yn lledu? yn dod i feddiant cadarnach o'r meddwl a'r galon ddynol? Fy marn i yw na welwyd cymaint o ysprydy Iesu yn mhob dosbarth o gymdeithas yn unrhyw oes ag yn ein hoes ni—y tu fewn a thu allan i'r eglwysi. Y mae swn y brwydrau duwinyddol a nodweddent grefydd y canrifoedd a fu yn gwanhau yn raddol. A daw swn y frwydr gymdeithasol—y frwydr i weithio allan o gymdeithas bob elfen anymunol—yn fwy-fwy clywadwy. Y mae'r ysprydy gweithio dros eraill yn dod yn amlwg iawn—yn dod yn fwy amlwg flwyddyn ar ol blwyddyn—yn ngwahanol fudiadau mawr ein dyddiau ni, megis, yn y

MUDIAD SOSIALAIDD.

Nis gwn a ydyw Sosialaeth yn ymarferol ai nid yw. Ond hyd y nod os nad yw yn ymarferol, ni fedr neb diragfarn lai na chydnabod mai brawdoldeb dyn a chydymdeimlad â dyn sydd wrth wraidd y mudiad Sosialaidd. Elfenau Cristionogol yw y rhai hyn. Gwelwn hwynt yn eu gogoniant yn mywyd Iesu. Pair yr elfenau hyn a nodweddant y mudiad Sosialaidd

i ddynion i ymgysegru i gynorthwyo'r tlawd i ymgodi o'i dlodi, i wneud eu goreu i wella'r galon ddrylliedig a chlwyfedig, ac i arwain dynion o gaethiwed o bob math i anadlu awyr iachus gwir ryddid. Gan nad beth yw ein barn am Sosialaeth, nis gall y ffaith hon lai na pheri llawenydd i bob Cristion. Oherwydd gwel ynddi brawf sicr fod yspryd sylfaenydd ei grefydd yn enill tir.

YR UN PETH GWIR BWYSIG

yw – dwyn yn nes gyflwr perffeithiach o gymdeithas. Cynhenau o bob math, newyn, gofid, tristwch, pechod yn ei wahanol agweddau, meddwdod, anghariadoldeb, hunanoldeb, anghyfiawnder, awydd aniwall am gyfoeth ac awdurdod bydol,—dyna'r elfenau y mae angen eu gyru o gymdeithas. Ffurfiau ardderchocach o fywyd, cyfreithiau mwy teg a chyfiawn, yspryd mwy brawdol, cariad at y gwir a'r da, heddwch, rhyddid, sobrwydd—dyna rai o elfenau hanfodol teyrnas Dduw ar y ddaear. Y mae pob mudiad a wna rywfaint yn erbyn y cyntaf a thros lwyddiant yr ail yn fudiad crefyddol—Cristionogol. A dylai'r Eglwys Gristionogol eu cydnabod fel ei chynorthwywyr yn y gwaith arbenig a berthyn iddi hi. Yn yr ymdrechion dyngarol hyn o blaid purach cymdeithas, gwneir llawer o gamsyniadau yn ddiau. Yn mhob ymdrech y mae camsyniadau yn anocheladwy. Yr unig ddyn a fedr ochel camsynied yw'r hwn na wna un ymdrech. Ond mil gwell bod yn nghanol yr ymdrech, er i hyny esgor ar gamsyniadau, na bod yn segur. Cyweiria profiad y camsyniadau bob yn dipyn. Rhagorfraint o'r mwyaf i bob dyn yw bod yn rhywle yn rhediad un neu ragor o'r mudiadau ydynt yn gwneud am berffeithiach cyflwr o gymdeithas.

MYFYRIWR.

EIN CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cynhaliodd Eglwysi Undodaidd Deheudir Cymru eu cyfarfodydd blynyddol eleni yn Mrondeifi, Llanbedr, ar y dyddiau Mawrth a Mercher Mehefin 21 a 22. Dydd Mawrth am 4.30 cyfarfu y gweinidogion o dan lywyddiaeth y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, i wrando ar anerchiadau gan y Parch. C. J. Street, M.A, Ll. B., Sheffield a'r Parch. George Evans, M.A., Gorton, Manchester, y rhai oeddent wedi eu hanfon yn ddirprwywyr i siarad ar ran y *Ministerial Fellowship Fund.* Wedi gwrandaw ar anerchiadau galluog y ddau foneddwr uchod, hyderir y bydd i lawer o'r brodyr Cymreig ei chael yn ymarferol cyn hir i ddod yn aelodau o'r gymdeithas. Nodwyd allan yn eglur iawn y manteision a berthyn i'r rhai sydd yn aelodau o honi, a gwnawd apel ddifrifol at y rhai oedd yn bresenol i beidio colli amser cyn gwneud cais am gael derbyniad i'r gymdeithas. Dygodd pleidlais wresog o ddiolchgarwch i'r siaradwyr y cyfarfod hwn i derfyniad.

Yn nesaf eisteddodd Pwyllgor Arianol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig i ystyried sefyllfa arianol y Gymdeithas, ac i dynu allan awgrymiadau i Bwyllgor oedd i gwrdd am naw bore dranoeth. Yr oedd yn llawenydd genym ddeall fod sefyllfa arianol y Gymdeithas yn lled dda.

Am chwech o'r gloch, cafwyd gwasanaeth a dwy bregeth Awd drwy y rhanau arweiniol gan Mr.

J. Carrara Davies, a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. C. J. Street, ac yn Gymraeg gan y Parch. Melchisedec Evans, Aberdare.

Am 9 dydd Mercher cyfarfu y Pwyllgor, pryd, yn mhlith pethau eraill, y cadarnhawyd ganddo yr oll a gymeradwywyd gan y pwyllgor arianol y prydnawn blaenorol. Penderfynwyd hefyd rhoddi £10 o'r neilldu at y llyfr emynau newydd sydd raid gael y dyddiau nesaf yma am fod yr hen wedi ei werthu allan yn llwyr, ac erfyniad taer ar y Parch. R. J. Jones i ymgymeryd a'r gwaith o ddethol emynau'n ddioed. Y swyddogion apwyntiedig am y flwyddyn yma ydynt — Llywydd : Parch. D. G. Rees, Bridgend ; Is-lywydd : Mr. Tyssul Davies, Aberdar ; Trysorydd : Mr. John Evans, Llandyssul ; Ysgrifenydd : Parch. T. A. Thomas, Llandyssul ; Prawfyddion : Mri. John Thomas, Y.H., Vrondolau, Ceinewydd, a D. M. Jones, Gwion Castle, Llandyssul. Penderfynwyd eto ail gychwyn y *Welsh Fund*, sef, y drysorfa at gynorthwyo dynion ieuainc i gael addysg ar gyfer myned i'r weinidogaeth, ac etholwyd y Parch. R. C. Jones, Ogmore House, Llanbedr, yn Ysgrifenydd, a Mrs. Dr. Evans, Taliesin House, Llanbedr, yn Drysoryddes, a chan ein bod yn cael ar ddeall fod yna un dyn ieuanc eisioes a'i wyneb i gyfeiriad y weinidogaeth, ond yn analluog i fyned rhagddo heb gynorthwy, mae'r ysgrifenydd yn dymuno gwneyd apel daer drwy'r YMOFYNYDD at y rhai sydd am weled drysau ein capelau'n cael eu cadw'n agored, am danysgrifiadau buan i drysorfa a fu unwaith o gymaint gwasanaeth, a'r hon, ni a obeithiwn, a fydd o fwy gwasanaeth eto'n y dyfodol.

Am 10.30, awd drwy y rhanau arweiniol gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, ac wedi hyny traddododd y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, y llywydd am y flwyddyn, ei anerchiad rhagorol, ar y testyn, " Dyn a'i waith," ac er mwyn un nad oedd yn gallu deall Cymraeg, rhoddodd ei gynwysiad yn Saesneg, ac yr oedd y gwrandawiad astud a gafodd pan yn traddodi ei anerchiad yn dangos fod y gwrandawyr yn ei fwynhau.

Am 2 yn y prydnawn, awd drwy y gwasanaeth agoriadol gan y Parch. John Davies, Alltyplaca, a thraddododd y Parch. Simon Jones, B.A., Abertawe, y pregethwr apwyntiedig, bregeth nerthol, llawn o feddyliau, a llawn tân Cymreig. Gobeithio na bydd iddo byth ollwng iaith ei fam yn anghof, na chyfyngu ei bregethu i'r iaith fam.

Am 6 yn yr hwyr dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul, a phregethwyd, yn gyntaf, yn Gymraeg, gan y Parch. Lewis Morgan, Clydach, ac ar ei ol ef pregethwyd yn Saesneg gan y Parch. George Evans ; ond er mwyn dangos nad oedd iaith ei dadau wedi myned yn llwyr anghof arno llefarwyd ganddo ychydig eiriau, o'r hyn a elwir ganddo, am ryw resymau, yn Gymraeg Heol y Prior. Ac ar ei ol ef cododd y Parch. R. J. Jones, Aberdar, i fyny a phregethodd oddiar eiriau a welir yn yr Actau 10 : 34—35. Nid gormod yw dywedyd fod y gwrandawyr wedi cael eu boddloni'n fawr yn y tair pregeth, ac fe ddywedir, na chlywyd erioed o Mr. Jones, Aberdar, mewn gwell hwyliau, ac mae hyny'n ddywedyd llawer, ac mae pawb yn ddiolchgar iddo ef ac ereill am eu gwasanaeth parod, ac yr oedd yna un peth, a dywedyd y lleiaf, yn debygol, yn hollol newydd yn ein cyfarfod hwyrol, sef tair pregeth yn yr un cwrdd. Nid wyf yn meddwl fod neb yn cofio am ddim cyffelyb o'r blaen yn hanes ein cyfarfodydd chwarterol a blynyddol.

Wel, mae ein Cyfarfodydd Blynyddol am y flwyddyn 1910 bellach drosodd. Wrth edrych yn y blaen atynt yr oeddynt ar lawer ystyr yn wrthrychau pryder i ni, pan yn cofio yn mhlith pethau eraill fod nifer ein gweinidogion yn Nghymru ar hyn o bryd yn ychydig iawn, ac nis gwyddem pa rwystrau allai ddod ar ffordd y cyfryw i'w lluddias i fod yn bresenol. Ond trwy gyd-gyfarfyddiad hapus

pethau, a medrusrwydd ysgrifenydd y Gymdeithas, yr ydym yn gallu edrych yn ol arnynt gydag hyfrydwch, oherwydd teimlwn eu bod wedi bod yn llwyddiant mawr yn mhob ystyr. Nid ydym yn cofio safon y pregethu erioed yn uwch o'r dechreu i'r diwedd yn ein cyfarfodydd. Yr oedd y cynulliadau yn ardderchog o luosog, yn enwedig prydnawn a nos Fercher—y capel lawer yn rhy fach i gynwys y tyrfaoedd. Yr oedd y canu drwyddo'n fendigedig, a thywydd tesog, braf i fyned drwy'r holl gyflawniadau.

Yr oedd yn dda genym weled Proff. Moore a Mrs. Moore, Caerfyrddin, yn bresenol, a Mrs. Thomas (gweddw y diweddar Barch. Thomas Thomas), a Mrs. James (gweddw y diweddar Barch. W. James, B.A.). Da oedd genym hefyd weled holl bregethwyr Ymneillduol tref Llanbedr yn bresenol yn y rhan luosocaf o'r holl gyfarfodydd—Parchn. Evan Evans (A.), Daniel Jones (B.), H. P. Atkins (W.), S. E. Prydderch (M.), a A. Williams (A.), Llangybi—ac yr oedd yn dda genym weled mintai mor lluosog wedi dod drosodd yn eu *motor car* o Trebanos.

Derbynied pawb--pell ac agos--ein diolchgarwch am bob help a roddwyd ganddynt i wneud y cyrddau yn llwyddiant, gan obeithio y byddant yn help i ddwyn ffrwyth buchedd dda yn yr holl wrandawyr.

" Mor hoff yw Cymdeithas y saint !
Mor felus cyfrinach plant Duw ! "

R. C. J.

YR EFENGYL UNDODAIDD YN NGHYFARFODYDD BLYNYDDOL BRONDEIFI.

Beth ydoedd gwerth ysprydol ac ymarferol y pregethau a draddodwyd yn y cyfarfodydd blynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y capel uchod? Faint o fwyd i enaid dyn? faint o nerth ysprydol? Faint yn hawddach byw bywyd da fuasai i berson yn chwilio am gyfarwyddyd a nerth pe buasai yn chwilio yn brysur am y fath gynorthwy? Cafwyd wyth o anerchiadau. Cymerwn hwynt, a cheisiwn dynu allan yr hanfod byw o honynt i gael allan faint o help sydd ynddynt.

1. Cymerwn berson yn chwilio am le i orphwys ei enaid. Mae nerthoedd natur yn ofnadwy i'r enaid sydd heb ei angori wrth ryw graig ddisigl. Mae bywyd mor llawn o amrywiaeth, a'r anhawsder penderfynu ymhlith cynifer o opiniynau dynion pa beth sydd wirionedd, fel ag i lenwi llawer un ag amheuaeth ac ofn sydd yn peri blinder mawr i lawer pererin yn chwilio am y ffordd adref. A oes cartref i'w gael? A oes mewn gwirionedd allu personol, neu hunanwybyddol sydd yn goruwch-lywodraethu ac yn rhoddi cyfeiriad i fywyd y bydysawd, ac a ydyw Efe yn gofalu fod yr oll yn cydweithio er ein lles? Oes, meddai un o'r pregethwyr. Allan o ddeall gwrteithiedig, ac o galon garedig wedi eu nawseiddio gan rai o dreialon dyfnaf bywyd, daeth yr atebiad fod ini Dad Nefol sydd mor garedig a thad yr afradlon, ac os gallwn gael y gwirionedd hwn fel sylfaen bydd ein tŷ yn wir wedi ei adeiladu ar y graig. Dyma attebiad ffydd yr enaid hollwybodol wedi ei gysoni drwy y deall, ac wedi ei brofi yn mhrofiad personol y pregethwr, fel y bu gan filoedd o eneidiau o'i flaen.

2. Ie, meddai rywun, Duw a Thad

anweledig ydyw. Nis gwelsom ef erioed. Fedrwch chwi ein cyfeirio at rywbeth gweledig fydd ini yn siampl neu yn engraifft o'r hyn ydyw y Tad Nefol hwn? Atebai un o'r pregethwyr fod Iesu Grist yn engraifft, a'r engraifft ŵyr y byd am dani o'r hyn ydyw y Tad anweledig. "Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad; a phaham y dywedi dangos i ni y Tad." Mae yr oen a laddwyd er cyn seiliad y byd yn *symbol* o ffaith dragwyddol yn mywyd y bydysawd; ac y mae y croeshoeliedig ar Galfaria yn gweddio dros ei lofruddion yn belydryn o'r goleuni llachar sydd byth yn dysgleirio yn nghalon y Tad tragwyddol.

3. Ond, meddai yr ymofynydd eto yr wyf yn gweled yn awr fod genych safon sicr i ffydd os yw y Tad mor gariadlawn a Iesu Grist. Sut sydd rhaid imi fyw, ac a fedrwch roddi imi engraifft eto o'r bywyd yr wyf i fyw fel mab y Tad dwyfol? Mewn attebiad i hwn dywedai un o'r pregethwyr y buasem oll ar y *safe side* os byddwn byw yn yspryd mabaidd a brawdol fel Iesu Grist; ac heb yr yspryd yma ni fuasai credu dwyfoldeb neillduol Iesu Grist o un pwrpas. "Od oes neb heb yspryd Crist nid yw yn eiddo i Grist" beth bynag fyddo ei gredo; ond os bydd yr yspryd ganddo fe fydd ei gredo a'i fywyd yn sicr o fod yn iawn hefyd.

4. Ie, eithaf da, ond a ydyw yr yspryd hwn yn gyfyngedig i Gristionogaeth; ai rhaid "adnabod Iesu Grist" yn ystyr neillduol yr uniongred, er bod yn gadwedig? Gyda phob parch, dywedai un o'r brodyr, bywyd, gwybodaeth, a phrofiad yr hwn sydd yn brawf nad oes ganddo lai o barch i Iesu Grist na neb o weinidogion yr eglwysi uniongred, *nac ydyw*. Yr oedd yspryd Crist yn Cornelius cyn iddo weled Pedr erioed. Fe fu Pedr yn gynorthwy mawr i Cornelius, ac y mae Cristionogaeth yn sicr o fod yn fendith i grefyddau eraill y byd; ond nid am nad oedd yspryd Crist yn y crefyddau eraill, ond am fod yr yspryd hwn wedi ei ddadguddio yn ei gyflawnder yn Iesu o Nazareth.

5. Sut, ac yn mha le yr wyf i weithio allan yr yspryd hwn mewn cymeriad personol? Dacw frawd arall yn codi ac yn dangos mewn modd eglur a meistrolgar fod y cymeriad i gael ei weithio allan drwy ein galwedigaeth, drwy ein gwaith ddydd ar ol dydd. Dyma yr ysgol lle y cawn y gwersi ydynt yn angenrheidiol i'n disgyblu yn y bywyd cristionogol. Ond cofiwn mai amcan y gwaith a'r grefft ydyw gwneyd, nid arian na chrefftwr chwaith, ond *dyn*. Ond os bydd yspryd Crist ynom, yr hwn oedd yn Cornelius cyn iddo erioed weled Pedr deuwn yn y diwedd i gyflawn oedran mab y brenhin tragwyddol.

6. Yr ydych wedi bod yn llwyddianus mor bell ag y'm i weled fod y ffordd yn un rhesymol. Ond mae y ddelfryd mor uchel fel ag i beri i mi i deimlo ei bod yn un anhawdd i'w sylweddoli. Ydyw, y mae yn anhawdd; ac oddiar safbwynt bersonol y mae yn anmhosibl. Ond dyma frawd arall ag agwedd o'r Efengyl eto i gyfarfod a'r anhawsder. Mae yr Efengyl—newyddion da—yn newydd am allu Duw er iachawdwriaeth yn gweithio ynom ni yn bersonol os credwn yn yr yspryd a ddatguddiwyd yn Iesu o Nazareth. Gallu Duw i fwrw allan gythreuliaid, i ddinystrio y diafol a'i holl weithredoedd drwy ddeffro yn yr enaid yr ymwybyddiaeth o bresenoldeb Duw Hollalluog yn gweithio yn yr enaid a'r bywyd.

7. Ie, y mae ser y nef yn gweithio dros y rhai ydynt yn cydweithio a Duw. Un Duw sydd, ac y mae efe yn gweithio yn a thrwy bob peth i weithio allan fwriad mawr ei galon yn iachawdwriaeth y byd. Mae ser y nefoedd a'r "seren foreu" sydd wedi codi yn nefoedd y gororau yspryd ol yn goleuo yr un llwybr ac yn cydweithio i gyflawnu amcan y Tad. "One life, one Son, one element, one far off Divine event to which the whole creation moves."

8. A pha beth ydyw diwedd hyn oll? Teyrnas Dduw yn ei chyflawn-

der gogoneddus. Cymdeithas wedi ei pherffeithio. Cymdeithas lle na bydd y person unigol byth yn colli ei bwysigrwydd a'i wir fawredd, a lle na bydd cymdeithas yn dioddef, yn colli dim o'r hyn y mae y Sosialydd yn ei geisio drwy ddeddfau seneddol. Nid yw Undodiaeth yn erbyn gwneud yr oll fedr dyn wneud drwy y ddeddf wladol. Ond "deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu sydd yn myned i ryddhau y ddynoliaeth oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth," ac i ddwyn i mewn deyrnas nefoedd lle na bydd neb yn anghariadus, yn anwir, yn glaf, neu yn dlawd, am y bydd teulu Duw drwy yspryd Crist wedi dyfod i'w gyflawn sylweddoliad. Am hyn nid oes eisiau i neb o honom fod a chywilydd o'r efengyl Undodaidd, oblegid hon yw efengyl Crist a gallu Duw er iachawdwriaeth i'r neb sydd yn credu.

LLITH J. J. T.

Mri. Gol.

Bum yn y cyrddau yn Mrondeifi, a chefais fy moddloni yn fawr yno. Yr wyf yn meddwl na welais well cyrddau erioed. Yr oedd yn werth dyfod o Forganwg i glywed gweddi y Parch. John Davies, Alltyplaca, pe buasai dim yn rhagor na hyny. Yr oedd anerchiad y llywydd yn dda, ond nid oeddwn yn cydfynd ag ef i gyd; ond nid yw hyny o bwys, yr oedd yr anerchiad yn dda. Cafwyd pregeth ardderchog gan y Parch. D. G. Rees, Penybont. Mae Mr. Rees yn bregethwr o'r iawn ryw. Yn wir, yr oedd y Parch. R. J. Jones, Aberdar, yn dda hefyd. Cefais bleser mawr i wrando arno. Y Sul canlynol yr oeddwn yn Aberaeron, ac aethum i wrando ar y Parch. Gwilym Evans yn pregethu ar y geiriau hyn, "Digon i ti fy ngras i." Gwelwn ei bod hi yn rhwyddach lawer i fyned i'r nefoedd trwy bregeth Mr. Evans na'r pregethau oeddwn wedi glywed yn Mrondeifi. Nid oedd eisiau un math o ymdrech ar ddyn i fod yn dda yn ol pregeth Mr. Evans, ond credu, 'digon i ti fy ngras i.' Cefais ar ddeall yn Mrondeifi ei bod hi yn waith caled i ddyn i ddringo i fyny o anialwch y byd hwn i ben mynydd sancteiddrwydd, ac y mae yn eithaf rhesymol hefyd nad yw Duw yn myned i'n cario ni os gallwn gerdded ein hunain.

Fe ofynwyd i Henry Ward Beecher a oedd efe yn credu yn John Calvin, attebodd ei fod, oherwydd na fuasai Calvin yn credu yn awr yr un modd ag oedd ef yn credu y pryd hyny. Ond yr oedd John Calvin mor fyw ag y bu erioed trwy yr oll o bregeth Mr. Evans. Yr oedd yn dda genyf hefyd i glywed mwy o yspryd y peth byw yn y pregethau a glywais i yn Mrondeifi na chlywais i o'r blaen. Sych iawn oedd pregethau yr Undodiaid bob amser. Nid oedd y gwlith ysprydol hyny, yr hwn sydd yn rhoddi bywyd i bob yspryd yn dyfod allan oddiwrthynt, ond efallai mai arnaf fi oedd y bai; efallai fy mod yn dyfod yn fwy ysprydol, ac yn teimlo y gwlith ysprydol hyny yn fwy.

DYMUNIAD DA.

DOED pob tad yn fwy tadol;—yn mhob man
Y bo mwy o'r mamol!
Nes i Hunan yn swynol—ar bob tu
O'i ddolur dyfu i ddelw'r Dwyfol.—ELFED.

PETHAU NEWYDD A HEN.

[*Gweler Rhifyn Rhagfyr, 1909.*]

Yn yr ysgol y mae'r athraw doeth wrth ddysgu daearyddiaeth i'r plant, yn dechreu yn y man lle mae'n sefyll, sef gyda'r ysgoldy lle mae ynddo, ac yna ceisia estyn cylch gwybodaeth ei ddisgyblion i bob cyfeiriad—North, East, West, South (N.E.W.S.), gan gymeryd y mwy a'r mwy i fewn o hyd, yn ol fel y bydd yn cael fod gallu y plant i dderbyn.

Dywedir wrthym yn chwedleuon yr

"ARABIAN NIGHTS,"

llyfr y dylai pob plentyn gael y cyfleu i'w ddarllen, i dywysog ieuanc, un tro, ddwyn pabell tylwyth teg i'w dad, wedi ei guddio mewn masgl cneuen Ffrengig. Dodwyd y babell yn y cynghorlys, tyfodd yno nes gordoi y brenin a'i weinidogion. Awd a hi allan i'r cyntedd, a llanwodd yr holl le nes oedd y teulu yn sefyll yn ei chysgod. Dygwyd hi i'r maes y tu allan i'r ddinas, lle'r oedd yr holl fyddin wedi gwersyllu, ac yno hi ymledaenodd i bob cyfeiriad, nes taflu ei chysgod dros yr oll. Sonir yn yr Ysgrythyr am hedyn, ie, y lleiaf o'r holl hadau, yn tyfu yn bren mawr, nes oedd yr adar yn gallu nythu yn ei changau. Gellir ei gyfrif fel math o babell tylwyth teg i ysprydoedd dynion. Megys i'r babell ac i'r hedyn fe berthyn i wybodaeth ystwyther a gallu i ymeangu sy' bron yn ddiderfyn.

Y mae

CYLCH GWYBODAETH

yn anherfynol ; ond y mae a fyno'r athraw a'r pethau hyn, y pethau ar bwys, ac yna ymestyn allan at y maesydd anherfynol ar bob llaw—"from the known to the unknown" yn ol awgrym y Sais. Esgynir yr ysgol rwyddaf a diogelaf drwy ddechreu gyda'r ffon isaf, ac yna rhagom o ffon i ffon.

Wrth gwrs, pan yn ceisio olrhain gwrthrychau gweledig i'w tarddiad cawn ein glanio heb fod yn faith ar y terfynau. Cymerwn flodeuyn yn ein llaw, a cheisiwn feistroli gymaint fedrwn ni am dano—perffeithrwydd ei ffurf, prydferthwch ei liwiau, pereidd-dra ei arogl, pa faint yn rhagor! Dodwn ef mewn llestr, dadansoddwn ef, cawn yn aros ar ol y *Carbon*, *Hydrogen*, *Oxygen*, *Nitrogen*—elfenau meirw bob un ; ond y mae yna rywbeth wedi dianc, a'r rhywbeth hwnw yw

Y DIRGELWCH MAWR

na fedrwn ni ddim byth dyfod i gyffyrddiad ag ef.

"Flower in the crannied wall
I pluck you out of the crannies,
I hold you here, root and all, in my hand,
Little flower—but *if* I could understand
What you are, root and all, and all in all,
I should know what God and man is."
—*Tennyson.*

Cofiaf ddarllen "Natural Theology," Archddiacon Paley, ryw driugain mlynedd yn ol, a'i ddarllen gyda phleser digymysg. Yr oedd

PALEY YN AWDURDOD

y pryd hwnw, a chredaf fi fod y llyfr yn werth ei ddarllen heddyw, yn enwedig gan bobl ieuainc myfyrgar, er mwyn y wybodaeth werthfawr a gynwysir ynddo. Mae'n wir fod ei

ymresymiad dipyn allan o ddate yn wyneb addysg ddiweddarach Dadblygiad. Amcan llyfr Paley yw profi fod yna drefnwr y tu cefn i drefniadau'r byd, ac os oes bwriad fod yna un yn bwriadu. Cofiaf fod y llyfr yn cychwyn gyda dychymygu am ddyn cyffredin yn cymeryd taith dros y rhos, ac yn

CODI CAREG.

Edrycha arni yn fanwl. Fe'i trŷ hi, ac fe'i trosa, ond i ddim pwrpas. Nid oes gan y gareg ddim i'w ddweyd wrtho ef, ac ni fedr yntau ddarllen dim o'i hanes. Yn awr, pe cymerasai

SYR CHARLES LYELL

y gareg i fyny yn ei law, mwy na thebyg y gallasai ddarlithio mwy nag awr am dani. Gallasai efe, yn dra thebyg, ei holrhain yn ol a dywedyd o ba haen neilldu'ol o'r graig y daethai allan, ac yn mhellach fyth ei holrhain i'r adeg y ffurfiwyd y graig ei hunan, a'i haenau ar waelod y môr yn y gorphenol pell. Ni wyddid nemawr i ddim am Ddaeareg yn amser Paley ; wedi iddo ef farw y daeth y wyddor i fodolaeth. Fe wna hyny'n rhanol esponio'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

Am Proffeswr Owen, onide, yr adroddir yr hanes fod rhywun wedi dwyn

TAMAID O ASGWRN

iddo, ac iddo yntau ar ol dwys a dwfn fyfyrdod, ddarllen yn yr asgwrn, hanes y creadur a'i perchenogai pan yn fyw, ac nid hyny yn unig, ond fe ddarfu iddo dynu ei lun hefyd ; ond yn rhyfedd, yr oedd yn llun creadur na welodd dyn erioed mo'i debyg. Ni choeliai neb mo hono, a mwy na hyny, fe ddechreuodd y dysgedigion gwyddonol uno a'r lluaws i chwerthin am ei ben a'i wawdio am ei fod mor ofergoelus. Cofiwn, nad yw y gwyddonwyr ddim yn ddoeth bob amser, nac yn ddoeth ond o fewn terfynau. Yn mhen dwy flynedd darganfyddwyd olion traed yn haen y graig, troed dde a throed aswy ar yn ail ; ac wedi dilyn y traed daethpwyd o hyd i'r creadur ei hunan a amlinellwyd gan y Proffeswr Owen, a chafwyd y cyfleusdra i droi'r chwerthin yn awr yn erbyn y gwyddonwyr. Yr oedd gormes y synwyrau yn gwasgu yn rhy drwm hyd y nod ar y dysgedigion ; ni chredent, ond ar dystiolaeth clust, a llygad, a llaw. Sylwer y drefn eto, fe gawd yn gyntaf olion traed creadur wedi eu ffurfio yn haen y graig, ac wedi hyny'r creadur ei hunan, wedi ymgaregu, wrth gwrs, hyny yw, wedi myned o'r un natur a'r graig o'r hon y cloddiwyd ef. Llwyddodd y proffeswr yn hynod, er nad oedd un dyn erioed o'r blaen wedi gweled creadur yn debyg iddo.

Yn raddol iawn y cymerir

GWYBODAETH NEWYDD

i fewn, hyd y nod gan y gwyddonwr ; fel y mae yn syndod meddwl ceir ef mor barod a neb i wawdio, ac yn fynych i godi'r cri o heresi yn erbyn y gweledydd newydd. Dyna fel y bu pan y dechreuwyd dadlenu dirgelion daeareg ; ac yn ddiweddarach fyth, yn wir, o fewn cof rhai o honom, pan y dechreuwyd cyhoeddi athrawiaeth dadblygiad ; a chyda

DRWGDYBIAETH

cyffelyb yr edrychir heddyw ar Arthur Russell Wallace, Syr W. Crookes, Syr Oliver Lodge, Lombroso, &c., rhai o wyddonwyr penaf ein dydd ni, am eu bod, ar ol astudiaeth fanwl ar y pwnc am flynyddau, yn dangos eu hunain yn rhy barod, yn eu tyb hwy, i dderbyn yr hyn sy'n myned dan yr enw ysprydegaeth.

Yn y Parc yn Aberdar y mae

careg fawr, Popler* y gelwir hi. Careg ddod yw hi, hollol ddieithr i'r ardal. Ceir yn yr ardal, yn wasgaredig hwnt ac yma, aml i un yn debyg iddi, ond dim haen o graig y gellir hawlio perthynas a hi o fewn i'r nawfed ach. Dywedir fod rhai yn debyg iddi, perthynasau agos, yn nyffryn Merthyr Tydfil; ond na cheir cymaint ag un yn Nghwm Rhondda. Esponiad daearegwyr yw mai oddiar

FÂNAU BRYCHEINIOG

y daethant yn wreiddiol, ac mai amser eu cychwyniad ar eu taith anhyffordd oedd Cyfnod yr Ia (*Ice Age*), filoedd lawer o flynyddau'n ol. Dyfelir gan wyddonwyr fod y cyfnod hwn wedi dechreu 240,000 o flynyddau'n ol, a therfynu 80,000 o flynyddau'n ol. Yr oedd Prydain y pryd hwnw, nid yn ynys, ond yn rhan o'r Cyfandir. Yn y cyfnod hwnw, yr oedd y parthau hyn o Gymru dan y dwfr; felly'r oedd y dyffrynoedd y soniasom am danynt; a phan dorodd

Y CYFNOD IA

i fyny, fe lithrodd y talpau ia yn grugiau mynyddog (*icebergs*) i lawr i'r dyffrynoedd, gan gario'r poplenau yn eu col; ac fel yr oeddynt yn toddi, dropient hwy hwnt ac yma ar y ffordd i lawr i'r môr. Dywedwyd genym yn barod na cheir un o'r poplenau hyn yn Nghwm Rhondda, a'r esponiad a roddir yw fod y mynydd rhyngddynt a'r Rhondda yn rhy uchel iddynt ei groesi. Llithrent hwythau yn naturiol ar hyd y *line of least resistance.*

Yn raddol iawn y ciliodd y dwfr allan o'r dyffrynoedd, ac wrth gilio darfu iddynt ddyfnhau'r dyffrynoedd yn fawr. Ger gorsaf y G. W. R.,

YN NGLYNEDD,

wrth edrych i fyny i'r mynydd yn nghyfeiriad y De, fe welir tair llinell yn rhedeg ochr yn ochr—*ancient water marks*, y galwai Robert Chambers hwy yn ei "Vestiges of Creation." Traeth y llyn fyddai pob un o'r rhai hyn ar wahanol adegau fel y byddai'r dwfr yn cilio.

Arosodd y dwfr yn mharth isaf Cwm Aberdar, a siarad yn ddaearegol, hyd yn gymharol ddiweddar;

AROSODD FEL LLYN FAWR,

hyny yw, o Aberpennar (*Mountain Ash*), lle daw y mynyddau i gyffyrddiad agos a'u gilydd, i fyny hyd at y bont haiarn yn y dref, sef ar waelod Commercial Street, Aberdar. Yr oedd hyn oll cyn dechreu hanes o gwbl. Cuddid y cwm, ar ol trai y dwfr, o'r pen uchaf i'r pen isaf, hyd o fewn cyrhaedd hanes, â fforest o goed, a dywedir y gallai gwiwer fyned bob cam o goeden i goeden o Aberpennar i fyny i'r Rhigos heb ddisgyn unwaith.

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.—Cyfarfyddodd y pwyllgor uchod ar ddydd y Cyrddau Blynyddol yn Llanbedr. Yn absenoldeb y Llywydd cymerwyd y gadair gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Darllenwyd adroddiad yr Ysgrifenydd, a phasiwyd fod y fantolen i gael ei harchwilio a'i chyhoeddi. Etholwyd Mr. David Jones, Hafodwen Mill, Cribyn, yn Llywydd, a Mr. David Davies, The Forge, Peterwell Terrace, Llanbedr, yn Is-Lywydd. Yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd i aros fel o'r blaen.

---

* Enw lleol yw *popler* am ddarn cyfansawdd o *pebbles* mân. *Conglomerate* yw gair y Sais. Gair gwahanol yw'r poplys, poplysen, yn golygu y pren *poplar.*

PRIODAS.

Gorphenaf 4, yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, y Parch. R. J. Jones yn gwasanaethu, unwyd mewn glân briodas, Ernest Frederick Walby, a Jennet Anne Price.

God grant the joy
which brightens earthly sorrow,
God grant the peace
which calms all earthly strife;
And to life's day,
the glorious unknown morrow,
That dawns upon
Eternal Love and Life.

MARWGOFION.

Y PARCH. JOHN EDMONDSON MANNING, M.A.

Ganwyd yn Lerpwl, Mawrth 22, 1848
Bu farw yn dra disymwth Ebrill 30, 1910.

Dymunwn osod ar gof a chadw yn YR YMOFYNYDD i Mr. Manning fod yn weinidog yn Abertawe o 1876 hyd 1889, ac yn ystod yr amser hwnw cawsom ef mewn cydymdeimlad gwresog a holl symudiadau'r enwad yn Nghymru. Mynychai ein cyfarfodydd chwarterol yn fynych, a rhoddai ei wasanaeth bob amser gyda pharodrwydd. Bu yn *Examiner* yn Ngholeg Caerfyrddin am flynyddau; yn weinidog yn Sheffield, 1889—1902. Oddiar 1894 yr oedd yn athraw yn y Coleg Undodaidd yn Manchester. Bu'n treulio ychydig wyliau yn yr Eidal, a chafodd anwyd ar ei ffordd adref. O fewn haner awr i'r amser yr oedd wedi bod yn gosod ei bapyrau mewn trefn, yr hyn a wnaeth gyda phob siriol deb, fe ddaeth y terfyn. Gedy ar ei ol weddw a thair merch, i'r rhai y cyflwynwn ein cydymdeimlad llwyraf. Claddwyd yn Abertawe, y Prifathraw Alf Gordon, M.A., a'r Parch. Simon Jones, B.A. yn gwasanaethu.

Gorphenaf 1af, yn 1, Caemelin Terrace, Penygroes, Llandebie, David Thomas, Castellhywel Arms, Llandyssul, yn 21 oed. Nid oedd y dyn ieuanc hwn o gyfansoddiad cryf iawn, ond ni feddyliodd neb y cai ei alw mor gynar. Rhyw wythnos cyn ei farw torodd ei waed yn sydyn, ac ofnai y meddygon o'r cychwyn nad oedd gwella iddo. Er nad oedd wedi treulio ond ychydig amser yn Penygroes, fe enillodd lu o gyfeillion, a deallwn i'w serch tuag atto gael ymddangosiad amlwg yn ystod ei gystudd byr. Y Sadwrn canlynol, dygwyd ei weddillion adref i Castellhywel Arms, a'r Mawrth canlynol, daearwyd hwynt yn Capelyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas. Yr oedd yr ymadawedig yn ffyddlawn iawn gyda'r gwasanaeth a'r Ysgol Sul yn Capelyfadfa, ac ystyrid ef yn fachgen tawel a diddrwg. Gobeithio y câ y fam a'r perthynasau eraill nerth i alaru yn gymedrol.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. F. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Economy and Refinement applied to everything for the Furnishing and equipment of the Home.

Catalogue, Estimates or Special Designs, Free of Charge.

INTERIOR DECORATING
a Speciality.

Ben. Evans & Co.
SWANSEA. LTD.